Rhifyn 4, Gorffennaf 07 Pris: 75c

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Codiad cyflog gwerth ei gael i athrawon!

Yn ein hargymhellion i'r STRB eleni, mae UCAC yn gofyn am godiad cyflog eleni o 8% o leiaf i athrawon Cymru. Rydym yn nodi bod yr hyn a dderbyniodd athrawon y llynedd, ac argymhelliad y Llywodraeth yn Llundain am eleni (sef dwy flynedd gyntaf y cynllun cyflogau tair blynedd), wedi syrthio ymhell ar ôl chwyddiant. Os derbynnir argymhelliad y Llywodraeth, bydd cyflogau athrawon yn gwaethygu ac nid yn gwella!

Mae angen codiad cyflog o 5% o leiaf yn 2007 i ddod â chyflogau yn lefel â chwyddiant. Mae UCAC yn gofyn am 3% ar ben hyn i sicrhau bod cyflogau athrawon yn codi eleni, mewn termau real, sef uwchben chwyddiant.

Yn anffodus, mae Alan Johnson, Ysgrifennydd Gwladol Addysg San Steffan, wedi rhybuddio'r STRB yn barod na fyddai'n fodlon derbyn unrhyw argymhelliad ganddynt i godi cyflog athrawon yn uwch na'r hyn a gytunwyd yn 2005, er bod argymhelliad yr STRB yn ei adroddiad diwethaf yn caniatáu hyn, pe byddai angen. Mae'n argyhoeddedig y bydd chwyddiant i lawr i 2% yn y dyfodol agos, a golyga hyn, yn ôl Alan Johnson, y bydd codiadau cyflog athrawon dros y tair blynedd yn uwch na chwyddiant. Onid y Llywodraeth yma oedd yn argyhoeddedig na fyddai chwyddiant yn codi uwchben 2% rhwng 2005 a 2008? Roeddynt yn anghywir y tro hwnnw – paham y dylem eu credu rŵan? Rŵan yw'r amser iddynt gydnabod a chywiro eu camgymeriad, nid aros tan 2008, pan fydd angen codiadau cyflog sylweddol iawn i ddal i fyny.

Bydd UCAC yn cydweithio â'r undebau eraill i geisio sicrhau y bydd athrawon yn derbyn y codiadau cyflog y maent yn eu haeddu.

OND mae UCAC yn mynnu bod yr arian ar gyfer unrhyw godiad cyflog ychwanegol yn cael ei gyllido'n ganolog. Os nad yw'r arian yn arian ychwanegol, bydd unrhyw godiad ychwanegol ym Medi 2007 yn achosi problemau mawr, gan fod cyllid 2007/2008 wedi ei ddyrannu i'r ysgolion ers Ebrill diwethaf. Pe byddai disgwyl i'r AALl, neu hyd yn oed yr ysgolion yn unigol, ddod o hyd i'r arian yna byddai hyn yn siŵr o arwain at doriadau ychwanegol, gan gynnwys rhagor o ddiswyddiadau. Ni fyddai hyn y dderbyniol. Heb sicrwydd arian ychwanegol, byddai'n anodd gennym dderbyn codiadau cyflog sylweddol ar draul swyddi.

Gruff Hughes
Ysgrifennydd Cyffredinol

Annwyl Aelod

Ydych chi:

- **wedi newid eich cyfeiriad e-bost?**
- **wedi symud ysgol?**
- **wedi newid enw?**
- **wedi newid cyfeiriad?**

Os felly, gwiriwch y ffurflen sydd y tu ôl i'r daflen gyfeiriad yn y pecyn hwn a'i hanfon yn ôl i UCAC os gwelwch yn dda. Does dim angen rhoi stamp ar yr amlen; neu wrth gwrs, gallwch fynd i wefan UCAC ac anfon neges yn amgáu eich newidiadau i ni.

Hefyd, carem atgoffa ein Cynrychiolwyr Ysgol, os ydych chi'n symud ysgol neu'n rhoi gorau i'r cyfrifoldeb, yna dylech drefnu cyfarfod yn yr ysgol i ddewis olynydd, a rhoi gwybod i UCAC pwy fydd eich olynydd. Diolch.

Cyfarfod Cyhoeddus

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Cadw Ysgol – Cynnal Cymuned

Pabell y Cymdeithasau
Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint a'r Cyffiniau
1.00 – 2.30, Dydd Mercher, 8 Awst 2007

Siaradwyr:

- **Mair Beech Williams, Prion, Dinbych**
- **Meriel Parry, Bangor**
- **Liz Saville, Morfa Nefyn**

CROESO CYNNES I BAWB

UCAC, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AZ
Ffôn: 01970 639950; Ffacs: 01970 626765
ucac@athrawon.com; www.athrawon.com

t2 Y dreth etifeddu t3 Annog rhieni di-Gymraeg eich ysgol t4 Adnoddau

Comisiwn Annibynnol i'r Fformiwla Barnett

Erbyn i chi ddarllen hyn o eiriau, mae'n debyg y byddwn yn gwybod pwy sy'n rheoli yn y Cynulliad - Llafur a Llywodraeth leiafrifol, clymblaid rhwng Llafur a Phlaid Cymru neu glymblaid yr Enfys?

Gobaith mawr UCAC yw y bydd pwy bynnag fydd yn rheoli yn ymrwymo i sefydlu comisiwn annibynnol i'r Fformiwla Barnett, sef y dull y mae Llywodraeth Llundain yn ariannu Cymru.

Mae holl undebau athrawon yng Nghymru yn cytuno'n unfrydol am yr angen i wneud hyn, a hynny ar fyrder. Nid yn unig mae UCAC yn gofyn am Gomisiwn ond hefyd am ymrwymiad i weithredu'r argymhellion. Rydym i gyd yn ymwybodol o beth ddigwyddodd i'r mwyafrif o argymhellion Comisiwn Richards, eu gwanhau neu eu hanwybyddu!

Nid yw'r fformiwla fel y mae yn addas ar gyfer Cymru heddiw. Yn ôl rhai arbenigwyr, mae Cymru yn colli allan ar filiynau lawer o bunnoedd pob blwyddyn - arian yr ydym ei wir angen os yw holl ddatblygiadau, prosiectau ac argymhellion y Llywodraeth flaenorol i'w gweithredu, heb sôn am unrhyw gynlluniau gan y Llywodraeth newydd.

Gruff Hughes, Ysgrifennydd Cyffredinol

Seminar ar gyfer Staff gydag Anabledd mewn Addysg Gydol Oes

Mynychodd Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd, y Seminar hon yn Llandrindod ar 7 Mehefin. Bwriad y Gynhadledd, a oedd wedi ei threfnu gan ***NIACE***, y Sefydliad Cenedlaethol ar Addysg Gydol Oes, oedd trafod y dystiolaeth a gasglwyd hyd yn hyn gan Gomisiwn a sefydlwyd i ymchwilio i sefyllfa staff gydag anabledd yn y sector ôl-16.

Mae gwaith y Comisiwn yn cynnwys edrych ar golegau Addysg Bellach a Phrifysgolion yn ogystal â darparwyr eraill. Bwriad y Comisiwn yw cynhyrchu adroddiad fydd yn cryfhau'r ymwybyddiaeth ynghylch anghenion staff gydag anabledd ac a fydd yn llunio argymhellion ar gyfer y gefnogaeth angenrheidiol i'w symud yn nes tuag at gyfleoedd cyfartal yn y gweithle. Byddai hynny nid yn unig er lles y gweithwyr eu hunain ond hefyd er budd y sefydliadau y maent yn gweithio iddynt a fyddai'n gallu manteisio ar y sgiliau a'r profiadau sydd ganddynt i'w cynnig. Gan fod newidiadau diweddar wedi ymestyn y diffiniad o anabledd i gynnwys effeithiau gwahanol fathau o salwch ac afiechyd tymor hir, gall fod oblygiadau pellgyrhaeddol i waith y Comisiwn.

Datganwyd cefnogaeth UCAC i'r dyheadau a arweiniodd at sefydlu'r Comisiwn – yr unig undeb athrawon a fynychodd y Gynhadledd.

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Gwyn L. Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol: Gruff Hughes
Golygydd *Yr Athro:* Gwenllïan Dafydd
Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Nan Williams, Prif Swyddfa UCAC, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AZ Ffôn: 01970-639950
Ffacs: 01970-626765 E-bost: ucac@athrawon.com www.athrawon.com
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

Pan nad ydyw di-dreth yn gyfystyr â bod yn ddi-dreth

Y dreth etifeddu

Mae manteision buddsoddi mewn ISAs bellach yn amlwg i bawb. Fodd bynnag, maen nhw'n rhan o ystad unigolyn ac ni ellir eu cynnwys mewn ymddiriedolaeth, felly efallai y bydd yn rhaid talu treth etifeddu arnynt.

Mae'n bosibl bod portffolio buddsoddi rhai cleientiaid sydd wedi buddsoddi mewn ISA a PEP wedi tyfu bellach a'u bod yn werth cannoedd o filoedd o bunnoedd.

Cafodd PEPs eu cyflwyno 20 mlynedd yn ôl ac felly mae'n bosibl bod amgylchiadau a rhesymau dros fuddsoddi bellach wedi newid yn ystod y cyfnod hwnnw. Efallai mai cynyddu cyfoeth oedd y nod gwreiddiol ond nawr, efallai mai'r nod yw cynllunio go gyfer â lleihau baich y dreth etifeddu.

Sut felly y gellir ateb problem bosibl y dreth etifeddu?

Gellir ystyried:

- Ymddiriedolaeth Benthyciadau. Dull da i'r rhai sydd am dderbyn incwm o'r portffolio a mynediad i'r cyfalaf.
- Ymddiriedolaeth Anrheg ar Ddisgownt. Mae'n rhoi disgownt ar y dreth etifeddu, yn ogystal ag incwm i'r rhai nad ydynt am fynediad i'w cyfalaf

Rhaid atgoffa bod cymryd incwm yn rheolaidd yn lleihau potensial twf y cyfalaf a gall gwerth y buddsoddiad syrthio'n is na'r swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol.

Er mwyn penderfynu faint y bydd yn rhaid i'r client fuddsoddi er mwyn lleihau'r taliadau i'r dreth etifeddu ar eu henillion, mae modd defnyddio Cyfrifydd Ymddiriedolaeth Benthyciadau a Chyfrifydd Anrheg ar Ddisgownt.

Yn ogystal, gan fod opsiynau eang i fuddsoddi gartref a thramor, gall cwsmeriaid fuddsoddi mewn cronfeydd sy'n gyfwerth i'r hyn a geir mewn PEPs ac ISAs. Cofiwch y bydd y taliadau'n amrywio gan ddibynnu ar y gronfa a ddewisir.

Cofiwch fod yr wybodaeth a gyflwynir yn yr erthygl hon yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o ddeddfwriaeth dreth ar hyn o bryd ac y gall newid yn y dyfodol.

Dylid ystyried y buddsoddiadau fel buddsoddiadau tymor hir neu ganolig (o leiaf 5 i 10 mlynedd). Gall gwerth buddsoddiadau ostwng yn ogystal â chynyddu – ni ellir gwarantu dim, felly gellir derbyn llai yn ôl nag a fuddsoddwyd.

Cynllun IHT Ymddiriedolaeth Diogelu Cyfoeth

Gwir hyblygrwydd wrth roi anrheg

- Gall cleientiaid ddewis yr incwm penodol sydd ei angen arno
- Does dim rhaid cymryd yr incwm
- Gellir cymryd yr incwm yn gyflawn, yn rhannol neu ddim o gwbl
- Gellir gohirio cymryd yr incwm tan unrhyw flwyddyn benodol
- Bydd y tyfiant y tu allan i stad y client o'r diwrnod cyntaf
- Bydd yn rhydd o fod yn glwm wrth stad y client ar ôl 7 mlynedd
- Gellir trosglwyddo'r gronfa i'r buddiolwyr tra bo'r client yn dal yn fyw
- Barn ysgrifenedig ymgynghorwr ar gael

Dyma rai rhesymau pam ein bod ni'n credu mai Ymddiriedolaeth Diogelu Cyfoeth yw'r cynllun IHT hawsaf i'w ddeall sydd ar gael.

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os ydych angen trafod y cynllun cysylltwch â:
Gofalaeth Asedau Sterling – Ffôn: 01970 617 622

Geraint Davies
Cwmni Asedau Sterling

Annog rhieni di-Gymraeg eich ysgol

Diolch i bawb a ymatebodd i'n cais ynghylch hyn a daliwch ati i yrru unrhyw syniadau a sylwadau atom ynghylch Cymreigrwydd eich ysgol. Y teimlad cyffredinol a fynegwyd hyd yn hyn oedd pwysigrwydd yr ysgol gyfan yn arddangos statws yr iaith a'i diwylliant, a bod cymuned gref yn cael ei chreu o gylch yr ysgol i helpu ac annog y teuluoedd dwyieithog/dysgwyr.

Dyma rai sylwadau ddaeth i law:

- Gyrron ni holiadur i'r rhieni yn gofyn sut allen ni eu helpu. Y cais mwyaf o bell ffordd oedd dosbarthiadau Cymraeg oedd yn cynnig gofal plant. Mae staff ategol yr ysgol yn cymryd eu tro i ofalu am y plant am awr ar ôl ysgol ddwywaith yr wythnos, ac mae'n gweithio'n wych.
- Rydym yn gyrru manylion dosbarthiadau Cymraeg yr ardal i rieni bob mis Medi, yn ogystal â thaflenni achlysurol ynghylch digwyddiadau lleol a gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch y Gymraeg (e.e. sut i ddefnyddio CySill, llyfrau, nwyddau, dosbarthiadau chwaraeon, mudiadau Cymraeg). Mae gennym hysbysfwrdd (a gwefan yn fuan) lle gall rhieni osod eu hawgrymiadau a'u taflenni eu hunain.
- Bob pythefnos, mae pob dosbarth yn yr ysgol yn creu cylchlythyr newyddion yn Gymraeg (gyda geirfa) yn sôn am beth maent wedi bod yn ei wneud yn y gwersi, ac ati. Nid yn unig mae hyn yn ehangu sgiliau TG y disgyblion ond mae hefyd wedi gwella'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni, yn ogystal â rhwng y rhieni a'u plant mewn rhai achosion. Mae'r cylchlythyr yn fan cychwyn i'r plant fynd ati i geisio siarad Cymraeg gartref ac mae'r eirfa o gymorth yn hyn o beth.
- Gofynnwyd inni greu pecyn gwybodaeth i rieni ynghylch y gymuned Gymraeg yn y dref ac yn ehangach: pa fideos, llyfrau a cherddoriaeth ac ati i'w prynu, gwersi a chymorth ieithyddol, tafarndai a lleoliadau lle gallant ymarfer eu Cymraeg, mudiadau perthnasol a digwyddiadau, gwefannau defnyddiol ac yn y blaen.
- Cawsom noson agored i'r rhieni i drafod problemau ieithyddol eu cartrefi ac i ni fel ysgol a rhieni Gymraeg fedru eu helpu. Rydym yn gobeithio cynnal noson debyg eto gan ei bod yn amlwg wedi rhoi hyder a hwb i lawer.
- Beth am annog y rhieni i gwrdd yn rheolaidd mewn tafarn gyda'r nos / caffis yn y boreau / digwyddiadau cymdeithasol gyda'r nod penodol o siarad Cymraeg ynddynt wrth gymdeithasu?
- Un syniad yw sefydlu cynllun mentora rhwng rhieni, sef cael Cymry Cymraeg yn cynorthwyo teuluoedd sy'n dysgu drwy annog cymdeithasu â'i gilydd neu fod ochr arall y ffôn i ateb cwestiynau ieithyddol.
- Pan fo'u plant yn cofrestru i'r babanod, rydym yn gofyn i rieni sicrhau fod eu plant yn gwybod rhai geiriau sylfaenol (rhai bwydydd, lliwiau, rhifau ac ati), ac yn rhoi CD a thaflen iddynt i'w cynorthwyo. Mae llawer o'r rhieni wedi bod yn falch o'r ysgogiad a'r cymorth, ac rydym ninnau'n gobeithio ein bod yn eu hannog i sylweddoli eu rôl hwythau yn natblygiad Cymraeg eu plant.

Ydi yswiriant eich car yn addas ar gyfer eich gwaith?

Yn ddiweddar, cafwyd gwybod gan aelod bod ei chwmni yswiriant yn gwrthod talu a thrwsio'i char ar ôl iddi fod mewn damwain ar y ffordd i'r ysgol.

Athrawes gyflenwi yw'r aelod ac fe gafodd y ddamwain ar y ffordd i'r ysgol yn y bore. Mae'r cwmni yn gwrthod talu gan mai defnyddio'r car ar gyfer busnes roedd hi, ac nid oedd hyn wedi ei gynnwys yn ei hyswiriant.

- roedd hi'n teithio i'r gweithle
- nid oedd yn derbyn unrhyw gostau teithio
- nid oedd yn teithio rhwng ysgolion ar waith yr ysgol neu'r awdurdod
- nid oedd yn cludo plentyn yn ymwneud â'i gwaith
- nid oedd yn teithio i gwrs yn ymwneud â'i gwaith
- ac eto, gwrthododd y cwmni talu.

Rydym yn ymwybodol yn UCAC, ers rhai blynyddoedd bellach, bod angen sicrhau bod yswiriant car athrawon yn addas ar gyfer teithio personol, pleser a busnes. Mae hyn pe byddai'n debygol y byddai'r athro yn defnyddio'r car yn ei waith, e.e. mynd â phlentyn adref, i'r ysbyty, mynychu cwrs, ymweld ag ysgol arall neu weithio ar fwy nag un safle – i restru rhai enghreifftiau.

Dyma'r tro cyntaf i mi glywed am gwmni yswiriant yn gwrthod talu am ddamwain ddigwyddodd ar y ffordd i'r gwaith yn y bore.

Gwiriwch eich yswiriant. Holwch beth yn union sydd yn cael ei gynnwys yn eich yswiriant. Efallai y bydd y cwmni yn codi mwy arnoch chi, os felly, chwiliwch am gwmni arall sydd yn cynnig gwell telerau.

Peidiwch â chael eich dal. Mae trwsio car yn ddrud a phetai unrhyw un wedi ei frifo yn y ddamwain, byddai'r costau yn uchel iawn.

Gruff Hughes, Ysgrifennydd Cyffredinol

Diogelu cyflogau athrawon sy'n derbyn Lwfans Rheoli

Daeth i sylw UCAC bod o leiaf un Awdurdod Addysg wedi camddehongli'r rheoliadau ynghylch hyn a bod rhai athrawon o'r herwydd wedi derbyn llai o gyflog nag oedd yn ddyledus iddynt.

Yn ôl y rheoliadau mae'r cyflog yr oedd athro yn ei dderbyn yn Rhagfyr 2005 yn cael ei ddiogelu am dair blynedd, sef hyd at 31 Rhagfyr 2008, ar wahân i'r amgylchiadau canlynol:

- os oedd y Lwfans Rheoli wedi ei ddyfarnu fel un dros dro am gyfnod penodol
- os yw athro yn derbyn CAD yn ystod cyfnod y diogelu sydd gyfuwch â, neu'n fwy, na'r swm a ddiogelir
- os yw athro yn derbyn CAD yn ystod y cyfnod diogelu sydd yn llai na gwerth y swm a ddiogelir, yna bydd hynny'n erydu'r swm diogelu a dderbynnir. Hynny yw, bydd athro yn derbyn y gwahaniaeth rhwng y swm a ddiogelir a gwerth y CAD newydd yn ogystal â'r taliad CAD
- os yw athro yn cyrraedd pwynt uwch ar y Raddfa Gyflogau a bod gwerth y pwynt newydd naill ai'n gyfuwch â, neu'n fwy, na'r swm a ddiogelwyd

Digwyddodd y camddehongli oherwydd bod un sir wedi erydu'r swm a ddiogelir pan oedd athro yn symud i fyny'r raddfa gyflogau. Roeddent yn tynnu'r cynnydd yn y cyflog wrth i athro symud i fyny'r raddfa gyflogau allan o'r swm a ddiogelir. Mae rheoliadau'r Adran Addysg a Sgiliau yn gwneud hi'n hollol glir fod hyn yn anghywir:

Nid yw'r swm a ddiogelir yn cael ei erydu a bydd y cynnydd yn y cyflog oherwydd symud i fyny'r raddfa gyflogau yn cael ei dalu i athro yn ychwanegol at y swm a ddiogelir os nad yw'r cyfanswm cyfuwch â, neu'n fwy, na'r swm a ddiogelir.

Dyma enghraifft o sut y byddai'r rheoliadau hyn yn cael eu gweithredu:

- Rhagfyr 2005: Athro ar Bwynt 5 o'r Brif Raddfa Gyflogau yn derbyn £25,953 + Lwfans Rheolaethol 2 o £3,312 sef cyfanswm o £29,265
- Ionawr 2006: Nid yw'r athro yn derbyn CAD dan strwythur newydd yr ysgol ond bydd yn parhau i dderbyn £3,312 fel y swm a ddiogelir
- Medi 2006: Mae'r athro yn symud i Bwynt 6 (£28,707). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng y cyflog newydd a'r cyflog gwreiddiol (£28,707 - £25,953) sef £2,754 yn gyfuwch â, nac yn fwy, na'r swm a ddiogelir. Bydd yr athro yn parhau i dderbyn y swm a ddiogelir yn llawn felly ei gyflog fyddai £28,707 + £3,312 = £32, 019
- Medi 2007: Mae'r athro yn croesi'r trothwy ac yn symud i bwynt 1 ar yr Amrediad Cyflog Uwch sef £31,878. Gan fod y gwahaniaeth rhwng y cyflog newydd a'r cyflog gwreiddiol (£31878 - £25953) yn £5925 yn fwy na'r swm a ddiogelir daw'r taliad diogelu i ben. Cyflog yr athro o Fedi 2007 ymlaen felly fyddai U1 sef £31,878

Os oes unrhyw ansicrwydd a ydych yn derbyn y swm diogelu priodol, cofiwch gysylltu ag un o'r Swyddogion Maes.

Adnoddau, Gwefannau a Chyhoeddiadau

Newid ar Droed yn B-DAG

Mae B-DAG, yr arbenigwyr meddalwedd addysgol, yn newid eu henw i Awen.

Penderfynwyd y byddai enw newydd yn ffordd drawiadol o gofnodi fod y cwmni yn ehangu i gynhyrchu llyfrau a gêmau bwrdd, yn ogystal â chynyddu eu nifer o gwsmeriaid y tu allan i Gymru. Dewiswyd yr enw Awen gan ei fod yn adlewyrchu nod y cwmni i ysbrydoli plant i ddysgu trwy chwarae.

Mae gwefan newydd Awen bellach yn fyw, ac yno mae disgrifiadau manwl o holl gynnyrch y cwmni gyda chyfle i ysgolion eu gwerthuso yn rhad ac am ddim.

Bydd modd i athrawon lawrlwytho gweithgareddau ar gyfer y bwrdd gwyn rhyngweithiol yn ogystal â deunydd ychwanegol i'w cynorthwyo i ddefnyddio ein hadnoddau yn y dosbarth am ddim oddi ar y wefan newydd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan: www.awenmedia.com

Hoffech chi wella eich sgiliau?

Cymorth ariannol gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Ydych chi yn eich 3 blynedd cyntaf yn dysgu?
Mae gennych yr hawl i gael £3,700 ar gyfer eich Cyfnod Sefydlu statudol a £1,000 yn yr ail a thrydedd flwyddyn ar gyfer eich Datblygiad Proffesiynol Cynnar. Nid yw rhai athrawon yn manteisio ar eu hawl. Os nad ydych yn siŵr beth sydd angen i chi ei wneud i gael gafael ar yr arian hwn, cysylltwch â'r Cyngor Addysgu cyn gynted ag y bo modd.

Wedi dysgu ers 3 blynedd neu ragor neu'n athro cyflenwi?
Mae'r Cyngor Addysgu hefyd yn cynnig arian drwy'i gynllun ariannu DPP ar gyfer cyrsiau, gweithdai, cynadleddau, cysgodi athro arall neu gael arbenigwr. Mae'r ariannu yn cynnwys:

- Grantiau Bwrsari (hyd at £600)
- Ysgoloriaethau Ymchwil Athrawon (hyd at £2,500)
- Cyfnod Sabothol Athrawon (hyd at £5,000)
- Bwrsari Grŵp (hyd at £3,600)
- Rhwydwaith Proffesiynol (hyd at £8,000)

Mae'r ariannu hwn yn boblogaidd iawn ac mae tua 6,000 o athrawon yn ymgeisio bob blwyddyn.

Hoffech wybod rhagor?
Ffoniwch: 029 2055 0350, e-bostiwch: induction&epd@gtcw.org.uk neu cpd@gtcw.org.uk
Gwefan: www.gtcw.org.uk.

Os hoffech i aelod o staff y Cyngor Addysgu (GTCW) ddod i'ch ysgol, cyfarfod neu ddigwyddiad i esbonio'r ariannu ymhellach yna cysylltwch â Hayden Llewellyn ar 029 20550350 neu e-bostiwch: hayden.llewellyn@gtcw.org.uk

Cipolwg ar gyfoeth yr iaith

Mil a Mwy o Ddyfyniadau



gan Edwin C. Lewis
(Gwasg Gomer, £19.99)

Does dim dwywaith fod i'r iaith Gymraeg gyfoeth o ddywediadau a diarhebion, perlau sydd weithiau'n ddigri, dro arall yn ddoeth. Hyd yn hyn, pethau wedi tueddu i gael eu hetifeddu ar lafar fu'r geiriau ffraeth hyn, ond bellach mae cyfrol newydd gan Wasg Gomer yn cynnig trysorfa helaeth o ddyfyniadau – rhai'n fwy cyfarwydd nag eraill ond pob un ag iddo'i wirionedd ei hun.

Meddai Bethan Mair o Wasg Gomer,
"Dyma drysorfa o gyfrol glawr caled hardd y gall rhywun gnoi cil arni a chael pleser ohoni am flynyddoedd. Mae'n un o'r cyfrolau hynny ddylai fod ym mhob cartref, ysgol a swyddfa ac mae'n anrheg perffaith ar gyfer unrhyw un sy'n hoffi geiriau bachog."

CAER

(Cymdeithas Addysg Ewrop y Rhanbarthau)

Y Gynhadledd Flynyddol yng Nghymru eleni
Aberystwyth, 27-29 Medi, 2007

Sefydlwyd CAER yn 1995 gyda datganiad cenhadaeth glir, sef **hyrwyddo addysg ieithoedd llai eu defnydd** a chydweithredu rhwng cymunedau ieithoedd lleiafrifol ar draws Ewrop.

Nod cynnal cynhadledd flynyddol CAER yw dod ag addysgwyr yn y maes at ei gilydd i drafod y materion a'r sialensiau hynny sydd yn gyffredin i'r cymunedau ieithoedd llai eu defnydd. Trafodir amryw agweddau ar addysg yn yr ieithoedd hyn, gan gynnwys marchnata addysg ddwyieithog, trochi a sicrhau dilyniant o'r ysgol feithrin i addysg bellach ac uwch.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y gynhadledd yna cysylltwch ag ysgrifennydd cangen Cymru, Wyn Thomas (Annwynthom@aol.com) neu drysorydd CAER, Clifford Davies (mcgdavies@ithel.fsnet.co.uk).

Myfyrwyr o Wlad y Basg i'ch ysgol chi?

Un o'r datblygiadau cyffrous sydd wedi codi'n uniongyrchol o waith CAER, dan arweiniad cangen Cymru, yw lleoli myfyrwyr o Wlad y Basg yn rhai o ysgolion Cymru.

Mae'r myfyrwyr yn yr ysgolion yn ystod Ionawr a Chwefror – ac mae eu presenoldeb o fudd uniongyrchol i'r ysgolion, ac i'r myfyrwyr eu hunain wrth gwrs.

Os hoffech fod yn rhan o'r cynllun eleni, cysylltwch â Robin Evans (Ysgrifennydd CAER) rhag blaen drwy e-bost: robin@carregmynach.freeserve.co.uk